CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Hysbysiad Statudol - Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Sarah Morgan,
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd,
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd,
NP20 4UR

Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 41 ac adran 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fod Cyngor Dinas Casnewydd, wedi ymgynghori â'r bobl angenrheidiol, yn cynnig cyfuno Ysgol Feithrin Fairoak ac Ysgol Feithrin Kimberley yn ysgol feithrin unigol ar safle cyfredol Ysgol Feithrin Fairoak o fis Medi 2021.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r sylwadau wedi'u gwneud gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn http://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx.

Mae Ysgol Feithrin Kimberley yn ysgol feithrin Saesneg annibynnol a gynhelir gan y gymuned wedi'i lleoli yn Blaen-y-Pant Crescent, Casnewydd, NP20 5QB. Mae ganddi nifer derbyn cyhoeddedig o 80 o ddisgyblion, sy'n cyfateb i 40 o ddisgyblion fesul sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn, gydag ystod oedran rhwng 3 a 4 oed. Mae'r ysgol feithrin hefyd yn cynnal Dosbarth Cyfathrebu 16 lle ar gyfer plant 3-4 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

Mae Ysgol Feithrin Fairoak yn ysgol feithrin cyfrwng Saesneg annibynnol a gynhelir gan y gymuned wedi'i lleoli yn Church Road, Casnewydd, NP19 7EJ. Mae ganddi nifer derbyn cyhoeddedig o 144 o ddisgyblion, sy'n cyfateb i 72 o ddisgyblion fesul sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn, gydag ystod oedran rhwng 3 a 4 oed.

Ar ôl eu cyfuno, bydd un ysgol feithrin rhyw cymysg Saesneg annibynnol a gynhelir gan y gymuned wedi'i lleoli ar safle cyfredol Ysgol Feithrin Fairoak yn Church Road, Casnewydd, NP19 7EJ fydd â nifer derbyn cyhoeddedig o 144 o ddisgyblion, sy'n cyfateb i 72 o ddisgyblion fesul sesiwn y bore a sesiwn y prynhawn, gydag ystod oedran rhwng 3 a 4 oed. Bydd yr ysgol feithrin newydd hefyd yn cynnal Dosbarth Cyfathrebu 16 lle ar gyfer plant 3-4 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n ymwneud yn benodol ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig.

Dan y cynnig hwn, caiff yr ysgol feithrin newydd ei chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd ac felly'r Cyngor fydd yr awdurdod derbyn. Ni chynigir y bydd y trefniadau derbyn prif ffrwd yn cynnwys dethol yn ôl dawn na gallu. Bydd derbyniadau i'r Dosbarth Cyfathrebu'n seiliedig ar asesiad o angen fel y'i pennir gan y Prif Swyddog Addysg.

Nid yw polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol prif ffrwd y Cyngor yn darparu ar gyfer plant oedran ysgol feithrin. Fodd bynnag, efallai y bydd plant sy'n mynychu'r Dosbarth Cyfathrebu arbennig yn gymwys i gael trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol am ddim ar ôl i'r Prif Swyddog Addysg gynnal asesiad o angen unigol. Nid yw'r cynnig hwn yn effeithio ar y darpariaethau hyn.

Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn cyfnod o 28 diwrnod wedi dyddiad cyhoeddi'r cynnig hwn, sef hyd at 6 Ionawr 2021, caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu dros e-bost.

Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost i school.reorg@newport.gov.uk. Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw'r Swyddog Datblygu a Gwybodaeth Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:

Prif Swyddog Addysg
Ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR
Dyddiad: 1 Rhagfyr 2020